

Gwers 40 – Tomos yn credu

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Ioan 20:19–29

Ydystiolaeth gynharaf i atgyfodiad Iesu yw pregethau Pedr, saith wythnos ar ôl y digwyddiad, (gweler Act. 2:14–36). Dywed ysgolheigion fod yr iaith a ddefnyddir yn yr areithiau hynny yn wahanol i'r gweddill o lyfr Actau'r Apostolion, ac yn brawf eu bod yn adroddiadau cynnar. Felly, o ddyddiau cynnar credai'r disgyblion, heb amheuaeth, fod Iesu wedi ei atgyfodi ac wedi ymddangos i nifer o bobl. Y mae'r apostol Paul, yn ysgrifennu rhyw chwarter canrif ar ôl yr Atgyfodiad, yn atgoffa ei ddarllenwyr yr hyn a wyddent eisoes, sef fod Iesu wedi dod o farw'n fyw, (Rhuf. 1:4). Y mae Paul hefyd yn cyfeirio at ymddangosiadau eraill nad yw'r efengylwyr wedi eu cynnwys (1 Corinth. 15:3–8).


Y mae llawer sy'n gyffredin yn adroddiadau'r pedwar efengyllydd am yr Atgyfodiad, megis y bedd gwag, amharodrwydd y disgyblion i gredu fod Iesu wedi ei atgyfodi, a'r ffaith mai i chwiorydd yr ymddangosodd Iesu yn gyntaf. Y mae ambell i ymddangosiad yn cael ei adrodd gan un yn unig o'r pedwar efengyllydd, e.e. y ddau yn cerdded adref i Emaus gan Luc, (er fe geir adroddiad byrrach yn Marc 16:12–13). Ioan yw'r unig un sy'n cyfeirio at anghrediniaeth Tomos.

Nid yw Ioan na Luc yn dweud ymhle yn union yr oedd y disgyblion wedi ymgynnull ar derfyn dydd cyntaf yr wythnos, ond dywed Ioan fod y drysau wedi eu cloi 'oherwydd eu bod yn ofni'r Iddewon' (Ioan 20:19). Yn ei gorff atgyfodedig, gallai Iesu fynd i mewn i ystafell er bod y drws ar glo. Tybiai'r disgyblion eu bod yn gweld ysbryd ond dywedodd Iesu wrthynt i'w gyffwrdd ag ef, 'oherwydd nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn fel y canfyddwch fod gennyf fi.' (Luc 24:39), a bwytaodd bysgodyn wedi ei rostio (Luc 24:42).

Ni wyddom pam nad oedd Tomos gyda'r gweddill o'r disgyblion y noson honno, ond pan ddywedodd y rheini, 'Yr ydym wedi gweld yr Arglwydd', atebodd Tomos, 'Os na welaf ôl yr hoelion yn ei ddwylo, a rhoi fy mys yn ôl yr hoelion, a'm llaw yn ei ystlys, ni chredaf fi byth.' (Ioan 20:25). Ymhen yr wythnos yr oedd Tomos gyda'r deg disgybl arall pan ddaeth Iesu i mewn i'r ystafell er bod y drws ar glo, ac meddai, 'Tangefedd i chwi!'. Meddai wrth Tomos, 'Estyn dy fys yma. Edrych ar fy nwylo. Estyn dy law a'i rhoi yn fy ystlys. A phaid â bod yn anghredadun, bydd yn gredadun.' (Ioan 20:27). Anghrediniaeth ac nid amheuaeth oedd wedi rhwystro Tomos i gredu geiriau'r disgyblion eraill. Ni chyffyrddodd Tomos â Iesu. Gwelodd ddigon i'w argyhoeddi fod Iesu yn wir, yn fyw, a chlywyd y gyffes ddwys, 'Fy Arglwydd a'm Duw.' (Ioan 20:28).

Tomos

Un o'r 12 disgybl, a elwid hefyd yn 'Didymus' (ffurf Roegaidd). Daw'r enw o'r Aramaeg sy'n golygu 'efail'. Y mae Ioan 14:5 yn datguddio ei fod yn berson ysbrydol ac eisiau cael atebion i gwestiynau dwfn, ac yn Ioan 11:16, dywed ei fod yn barod i fynd gydag Iesu at fedd Lasarus ac efallai marw dan ddwylo'r Iddewon. Yr oedd yn un o'r saith disgybl a aeth i bysgota (gweler Gwers 41). Adwaenir ef fel 'yr amheuw'r' oherwydd yr hyn a ddywedodd wrth ei gyd-ddisgyblion, ond nid yw Iesu yn ei geryddu oherwydd hynny.



Roedd Iesu wedi atgyfodi. Ymddangosodd o flaen ei ddisgyblion pan roedden nhw wedi'u cloi mewn ystafell.

Fedri di ddod o hyd i ddeg gorriad yn cuddio yn y llun?

Darllen Ioan 20:19–20.

Gwers 40 – Tomos yn credu

Iesu a Tomos | Ioan 20:19–31

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 168



Gwers 40

Tomos yn credu

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Tomos yn credu tud 168

BEIBL LLIW STORI DUW

Tomos yn amau ei ffrindiau tud 275

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Iesu a Tomos tud 215

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Stori Thomas (335) tud 381

BEIBL LLIW Y TEULU

Iesu a Tomos (289) tud 151

I ddechrau

Cystadleuaeth dweud jôcs 'Cnoc Cnoc', e.e.

- Cnoc Cnoc. Pwy sy' na? Martin. Martin pwy? Ma'r tin bîns yn y gegin.
- Cnoc, Cnoc. Pwy sy' na? Austin: Austin pwy? O's tin o Baked Beans gyda chi?
- Cnoc, Cnoc. Pwy sy' na? Cnoc, Cnoc. Pwy sy'n na? Cnoc, Cnoc. Pwy sy'n na? Cnoc, Cnoc. ... Pwy sy' na?! Cnoc, Cnoc! grrr...Pwy sy' na?! Cnocell y coed!
- Cnoc, Cnoc. Pwy sy' na? Iorwerth. Iorwerth pwy? Iorwerth mewn preseb!
- Cnoc, Cnoc. Pwy sy' na? Te. Te pwy? Te...ranosorys ... (sŵn rhuo mawr)
- Cnoc, Cnoc. Pwy sy' na? Din. Din pwy? Din osôr!

I'r plant llai: bydd angen mwgwd. Rhowch y mwgwd am lygaid un o'r plant. Yna bydd yr athro yn pwyntio at aelod o'r dosbarth a bydd angen iddo ef/hi gnocio ar y bwrdd. Rhaid i'r plentyn yn y mwgwd ddyfalu pwy sy'n cnocio'r drws.

Yr hanes

Eglurwch fod y stori Feiblaidd yr wythnos hon yn sôn am Iesu yn dod at ei ddisgyblion wedi iddo atgyfodi. Roedd y disgyblion mewn ystafell ac roedd y drws ar glo, ond nid oedd angen i'r Iesu gnocio'r drws o gwbl er mwyn dod i mewn!

Darllenwch yr hanes o'r Beibl Gweithgaredd neu gallwch ddefnyddio un o'r llyfrau ar y Rhestr Adnoddau. Dangoswch lle mae'r hanes yn dod ar y Llinell Amser.

Trafod

Ydy'r plant yn credu'r gosodiadau canlynol?

- Mae'n amhosib i chi disian gyda'ch llygaid ar agor
- Mae malwod yn gallu cysgu am 3 blynedd
- Y cyhyr cryfaf yn y corff yw'r tafod
- Nid yw crocodeil yn gallu tynnu tafod
- Eliffantod yw'r unig anifail sydd yn methu neidio.

Maent i gyd yn wir! (yn ôl y Rhyngrwyd)

Doedd Tomos ddim yn credu ei ffrindiau fod Iesu wedi dod atyn nhw i'r ystafell er bod y drysau wedi eu cloi. Ond wythnos yn ddiweddarach, fe welodd Iesu gyda'i lygaid ei hun – ac fe gredodd.

Ni allwn weld Iesu fel y gwnaeth Tomos, ond gallwn gredu ynddo fel Tomos.

Dydyn ni ddim yn gallu gweld gwynt, ond rydyn ni'n gwybod fod gwynt yn bodoli. Dydyn ni ddim yn gallu gweld trydan, ond rydym yn gwybod fod trydan yn bodoli.

Dydyn ni ddim yn gallu gweld Iesu, ond eto mae miliynau o bobl ar hyd a lled y byd yn credu ynddo ac yn ddisgyblion iddo.

Mae Iesu am i ni gredu ei fod yn fyw heddiw.

Dysgu adnod

'Dyn ni'n credu bod Iesu wedi marw ac wedi cael ei godi yn ôl yn fyw eto', (1 Thesalonïaid 4:14) - (beibl.net)

Dysgwch yr adnod gan arwain y plant i eistedd yn sydyn ar lawr wrth ddweud y gair 'marw' ac yna neidio i fyny yn uchel ar y gair 'codi.'

Gweddi

Defnyddiwch glôb i gynorthwyo'r dosbarth i weddio dros Gristnogion y byd. Gadewch i'r glôb droi, yna gofynnwch i un o'r plant stopio'r troi wrth roi ei fys ar wlad. Edrychwch i weld pa wlad y mae'r plentyn yn ei chyffwrdd, a chyflwynwch weddi, e.e.

'Arglwydd, gweddiwn dros Gristnogion a phobl... (enw'r wlad)

Rhowch gyfle i bob plentyn ddewis gwlad a chyflwyno gweddi.'

Gêm ychwanegol

Cofio enwau'r disgyblion: Chwaraewch 'Kim's Game'. Bydd angen 12 eitem cyffredin heb fod yn rhy fach, megis batri / rhwbiwr / siswrn / cwpan wy / allwedd, ac ati. Rhowch yr eitemau ar hambwrdd a dangoswch hwy i'r dosbarth am 15 eiliad. Gofynnwch i'r plant droi i ffwrdd neu gau eu llygaid a thynnwch un o'r eitemau oddi ar yr hambwrdd. Bydd angen i'r plant gofio beth sydd ar goll.

Yna, ysgrifennwch enwau'r 12 disgybl ar 'post-its' bach a'u gludo, un ar bob eitem, ar yr hambwrdd. Dilynwch yr un broses ag uchod, gan dynnu un o'r eitemau/enwau. Gofynnwch pa ddisgybl sydd ar goll. Gallwch holi'r plant am rôl y disgyblion yn hanes y Pasg er mwyn adolygu – e.e. beth wnaeth Jwdas (bradychu Iesu), beth wnaeth Pedr (gwadu ei fod yn adnabod Iesu), beth oedd Tomos am ei weld cyn y byddai'n credu (olion yr hoelion)?

Cân

'A yw Duw yn farw?' (Rhif 1, Tyrd i Ddathlu)

Adnoddau Ychwanegol

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Pasg: Iesu'r Brenin

Tafleenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres a, B a C – Y Groes a Iesu'n Marw

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 48: Newyddion Da Iawn

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 58: Y Diwrnod mwyaf Hapus

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 352

Llyfrau Stori

Stori'r Pasg i Blant Bach

Stori'r Pasg

Rhywun Arbennig Iawn

Y Pasg Cyntaf

